

Deisyfu ceisiadau ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines

Datganiad am broses geisiadau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer buddsoddiad y Jiwbilî o £7miliwn.

Rydym yn gweithio gyda dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol i nodi carreg filltir Jiwbilî Platinwm y Frenhines ac i gyflwyno etifeddiaeth gref i dirwedd, natur a chymunedau. Mae'r rhain yn flaenoriaethau allweddol yn ein [Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024](#).

Rydym yn defnyddio ein pŵer deisyfu dim ond lle mae'n amlwg mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni un o'n hamcanion strategol. Ac, lle mae'r broses arferol o dderbyn ceisiadau digymell yn annhebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus o gwbl neu o ansawdd digonol.

Yn yr achos yma, nodwyd mai deisyfu ceisiadau oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ein hamcanion strategol ledled y DU o fewn yr amserlen:

- bydd yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer byd natur – cefnogi adferiad byd natur, darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ailgysylltu pobl â thirweddau a byd natur
- bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth – gan gefnogi'r sector tir a natur i fod yn gynhwysol
- bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld
- bydd pobl wedi datblygu sgiliau

Mae prosesau deisyfu ar wahân ar gyfer y ddwy haen o fuddsoddiad Jiwbilî:

1. **Haen un: £5m i helpu cymunedau i wella byd natur ar garreg eu drws, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd neu natur.** Gofynnwyd am gais gan Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur, a ddyfarnwyd gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr (gweler y manylion isod).
2. **Haen dau: £2m i ddarparu 70 o leoliadau â thâl i bobl ifanc.** Bydd hyn yn cymryd camau i arallgyfeirio'r gweithlu natur drwy greu cyfleoedd i bobl ifanc o gefndiroedd ethnig amrywiol, dan anfantais economaidd ac anabl i weithio am hyd at flwyddyn mewn sefydliadau natur. Disgwyliwn i wahodd detholiad o sefydliadau i wneud cais a bydd canlyniad y broses hon yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd Mai 2022.

Gwneir ceisiadau o dan y [Rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#) a'i asesu yn erbyn y briff deisyfu ceisiadau.

Ar gyfer **Haen un**, roedd y briff yn amlinellu'r angen i ddatblygu prosiect dwy flynedd a fyddai'n:

- cysylltu pobl â byd natur yn agos at ble maen nhw'n byw
- darparu etifeddiaeth gref i natur a chymunedau ledled y DU

- grymuso a chefnogi pobl i gymryd camau i fod yn rhan o adferiad byd natur, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd
- cyfoethogi bywyd gwyllt mewn cymdogaethau trefol a gwledig sy'n ddifreintiedig yn economaidd, lle gall pobl yn amlwg werthfawrogi byd natur fel rhan o'u cymuned
- creu cyfleoedd ar gyfer astudiaethau achos amrywiol, creadigol a chynnwys ar gyfer cyfathrebu – i gyd-fynd â phenwythnos y Jiwbilí 2–5 Mehefin 2022 a thu hwnt
- dangos effaith yn erbyn y canlyniadau a nodwyd: bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth a bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld

Ar gyfer **Haen dau**, y briff fydd partner cyflawni DU gyfan i:

- cymryd camau i arallgyfeirio'r gweithlu natur
- darparu cymorth i 70 o bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol i weithio mewn sefydliadau tir a natur ledled y DU, gan adael gwaddol ar gyfer y bobl ifanc a'r sefydliadau cynnal
- creu cyfleoedd ar gyfer astudiaethau achos amrywiol, creadigol a chynnwys ar gyfer cyfathrebu – i gyd-fynd â phenwythnos y Jiwbilí 2–5 Mehefin 2022 a thu hwnt
- dangos effaith yn erbyn y canlyniadau a nodwyd: bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth a bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio neu ymweld

O ganlyniad i'r deisyfiadau hynny, dyfarnwyd y grant canlynol:

Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur

Disgrifiad byr o'r prosiect: Bydd Nextdoor Nature yn grymuso pobl mewn 190 o ardaloedd trefol a gwledig difreintiedig yn economaidd i ymgymryd â micro-brosiectau sy'n helpu byd natur i ffynnu a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd Ymddiriedolaethau Natur ledled y DU yn gweithio gydag aelodau cymunedol pryderus – gan eu cefnogi i nodi a gweithredu camau lleol sy'n bwysig i'w cymuned – mewn ffyrdd sy'n iawn i'w cymuned.

Grant a ddyfarnwyd: £4,999,992